

Cymraeg / Welsh

Neges Heddwch ac Ewyllys Da gan Ieuenctid Cymru i Ieuenctid y Byd

Tic-toc. Tic-toc. Mae amser yn prinhau ac rydyn ni ar groesffordd. Mae newid hinsawdd yn broblem real a rhaid gweithredu nawr.

Os bydd pethau'n parhau fel maen nhw, ni fydd yr Arctig yn bodoli yn ei ffurf bresennol mewn tair blynedd. Ffaith.

Os bydd tymheredd y blaned yn codi 4°C, gall anialwch y Sahara ymestyn i fyny mor bell â Ffrainc. Ffaith.

Ar gyfartaledd mae pob person yng Nghymru yn creu 11 tonnell o garbon deuocsid mewn blwyddyn . Ffaith.

Mae pob person yn Kenya, ar gyfartaledd yn creu 0.2 tonnell o garbon deuocsid mewn blwyddyn. Ffaith.

Fedrwch chi ddim dweud nad oeddech yn gwybod ein bod yn defnyddio gormod o danwydd. Ein bod yn rheibio'r ddaear o'i mwynau. Ein bod yn wastraffus ac yn taflu llawer gormod o bethau. Ein bod yn lladd y blaned.

Y llynedd a'r flwyddyn cynt, yr un oedd ein neges ond dyw amser ddim yn aros i neb.

Gwahoddwn ieuenctid y byd i ymuno gyda ni bobol ifanc Cymru i wynebu'r gwirionedd a chodi llais. Gadewch i ni wneud Newid Hinsawdd yn destun i weithredu arno nawr. Galwn arnoch chi i ddewis y llwybr cywir ar y groesffordd. Does dim pwynt edrych nôl ar yr hyn sydd wedi digwydd. Mae heddiw'n gyfle newydd ac yfory'n llawn addewid.

Tic-toc. Tic-toc. Glywch chi'r cloc yn tician?

Lluniwyd gan Fforwm Ieuenctid Ceredigion